

DYDD MERCHER, 6 MEDI 2023

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD AML-LEOLIAD Y CYNGOR SIR A GYNHELIR YN Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AC O BELL AM 10.00 YB, DYDD MERCHER, 13EG MEDI, 2023 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-
[HTTPS://CARMARTHENSHERE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME](https://carmarthenshire.public-tv/core/portal/home)

Swyddog Democrataidd:	Julie Owens
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224088
E-bost:	juowens@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD (OS OES RHAI)
4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)
5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 12FED GORFFENNAF 2023 5 - 14
6. CYMERADWYO'R NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU:-
 - 6.1 MAE GRWP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD GARETH JOHN I GYMRYD LLE'R CYNGHORYDD HAZEL EVANS AR Y PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
 - 6.2 MAE GRWP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD GARETH JOHN I GYMRYD LLE'R CYNGHORYDD HAZEL EVANS AR Y PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL
 - 6.3 MAE GRWP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD RUSSELL SPARKS I GYMRYD LLE'R CYNGHORYDD HAZEL EVANS AR Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
7. ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YN DILYN SWYDD WAG CANOL TYMOR

Yn unol â Rheol 4 (2) o Weithdrefn y Cyngor mae'r enwebiad canlynol wedi'i gyflwyno i'r Prif Weithredwr :-

Y Cyngorydd Gareth John - Grŵp Plaid Cymru

Nid oes enwebiadau eraill wedi dod i law.
8. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y:-
 - 8.1 3YDD GORFFENNAF 2023 15 - 18
 - 8.2 17EG GORFFENNAF 2023 19 – 24

9. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

9.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR EDWARD THOMAS A HEFIN JONES

“Ffordd Osgoi Llandeilo

Mae'r Cyngor yn nodi bod yr adroddiad WELTAG1 ar ffordd osgoi Llandeilo yn 2018 wedi'i ddileu'n bendant fel rhywbeth anymarferol, y cysyniad o ddargyfeirio cerbydau nwyddau trwm i ffwrdd o ganol tref Llandeilo, heb ffordd osgoi.

Mae'r Cyngor yn nodi ymhellach bod y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth wedi cyhoeddi ei fwiad yn ddiweddar i atgyfodi'r opsiwn hwn o bosibl wrth aros am ymchwiliadau pellach. Heb os, byddai hyn yn gweld gweithredwyr cerbydau nwyddau trwm yn chwilio am ddargyfeiriadau llwybr byr trwy bentrefi gwledig mewn wardiau cyfagos ar ffyrdd anaddas neu'n wynebu cost ac amser ychwanegol oherwydd y pellter a deithiwyd. Byddai'r effaith yn cael ei deimlo gan fusnesau yn nhref Llandeilo sy'n dibynnu ar gerbydau nwyddau trwm ar gyfer anfon a derbyn nwyddau, a byddai dull mynediad yn unig yn golygu bod camau o'r fath yn aneffeithiol ac na ellir eu gorfodi.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Dirprwy Weinidog i ailystyried ei fwiad cyhoeddedig ac i gadw at ganfyddiadau adroddiad 2018. Ar ben hynny, mae'r cyngor hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad WELTAG 2 a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020 yn ddiymdroi a gwireddu'r ymrwymiad a wnaed yn 2016/17.”

9.2 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR KEVIN MADGE A ROB JAMES

“Grŵp Cymorth Iselder Shadows

Mae Grŵp Cymorth Iselder Shadows yng Nglanaman wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i boblogaeth Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth dros y tair blynedd diwethaf, gan ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl eang sy'n effeithio ar y gymuned ehangach.

Torrwyd cyllid Shadows o'r 5ed o Fedi a fydd yn effeithio ar y bobl fregus sy'n byw yn ein cymunedau gan y byddant bellach yn fwy ymylol, a bydd rhai yn wynebu risg iechyd difrifol oherwydd y penderfyniad hwn.

Rydym yn galw ar Fwrdd Iechyd Hywel Dda, Cyngor Sir Caerfyrddin a chlystyrau.

Meddygon Teulu i gynnal y cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn neu ddarparu cymorth ariannol i gadw'r gwasanaethau i fynd nes eu bod yn derbyn cyllid grant - bydd hyn yn helpu i gynnal y gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir ar gyfer ardaloedd Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth.”

10. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**
11. **CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**
12. **COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN):-**
 - 12 .1 **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO - 29AIN MEHEFIN 2023**
 - 12 .2 **PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - 5ED GORFFENNAF 2023**
 - 12 .3 **PWYLLGOR SAFONAU - 6ED GORFFENNAF 2023**
 - 12 .4 **PWYLLGOR APELAU - 13EG GORFFENNAF 2023**
 - 12 .5 **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - 14EG GORFFENNAF 2023**
 - 12 .6 **PWYLLGOR PENODI B - 19EG GORFFENNAF 2023**
 - 12 .7 **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL - 19EG GORFFENNAF 2023**
 - 12 .8 **PWYLLGOR CYNLLUNIO - 20FED GORFFENNAF 2023**
 - 12 .9 **PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD - 21AIN GORFFENNAF 2023**
 - 12 .10 **PWYLLGOR TRWYDDEDU - 27AIN GORFFENNAF 2023**
 - 12 .11 **PWYLLGOR CYNLLUNIO - 17EG AWST 2023**

CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 12 GORFFENAF 2023

PRESENNOL Cynghorydd B.A.L. Roberts (Cadeirydd) (Yn y Siambr):

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

P. Cooper	C.A. Davies	W.R.A. Davies	B. Davies
G. Davies	K. Davies	L. Davies	L.D. Evans
S. Godfrey-Coles	T.M. Higgins	J.K. Howell	P.M. Hughes
J.D. James	G.H. John	D. Jones	H. Jones
A. Lenny	A. Leyshon	M. Palfreman	D. Price
E. Rees	E. Skinner	R. Sparks	E.G. Thomas
M. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan Owen	

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

L.R. Bowen	K.V. Broom	J.M. Charles	M.D. Cranham
D.M. Cundy	S.A. Curry	T.A.J. Davies	C. Davies
LI.M. Davies	T. Davies	M. Donoghue	A. Evans
D.C. Evans	H.A.L. Evans	N. Evans	R.E. Evans
W.T. Evans	P. Hughes-Griffiths	M. James	R. James
B.W. Jones	A.C. Jones	N. Lewis	K. Madge
A.G. Morgan	D. Owen	S.L. Rees	E.M.J.G. Schiavone
J. Seward	H.B. Shepardson	D. Thomas	G.B. Thomas
F. Walters	P.T. Warlow	D.E. Williams	J. Williams

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters, Prif Weithredwr
 C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
 J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
 G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
 A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
 P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
 L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
 G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
 L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
 M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau
 E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
 L. Davies, Cyfieithydd Ar Y Pryd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol
 R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
 S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.00 yb

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Allen, A. Davies, H.L. Davies, S.L. Davies, A.D. Harries, J.P Hart, G.R. Jones, M.J.A. Lewis a B.D.J. Phillips.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
M. Palfreman	Eitem 7 ar yr Agenda – Cofnodion y Cabinet 19/07/23 - Cofnod 6 – System Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru: Pa Mor Bell, Pa Mor Gyflym?	Mae'n gwneud gwaith fel ymgyngorydd sy'n cynghori ar faterion sy'n ymwneud â darparu Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cynghorydd Palfreman wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau sy'n caniatáu iddo siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig.
H.B. Shepardson	Eitem 7 ar yr Agenda – Cofnodion y Cabinet 19/07/23 - Cofnod 11 – Polisi Cyflogau Athrawon Enghreifftiol 2022/23.	Ei ferch yn athrawes.
K. Madge	Eitem 7 ar yr Agenda – Cofnodion y Cabinet 19/07/23 - Cofnod 6 – System Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru: Pa Mor Bell, Pa Mor Gyflym?	Ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
B.A.L. Roberts	Eitem 7 ar yr Agenda – Cofnodion y Cabinet 19/07/23 - Cofnod 6 – System Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru: Pa Mor Bell, Pa Mor Gyflym?	Aelod o'r teulu'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol.
P.T. Warlow	Eitem 7 ar yr Agenda – Cofnodion y Cabinet 19/07/23 - Cofnod 6 – System Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru: Pa Mor Bell, Pa Mor Gyflym?	Ei wraig yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol.
S. Godfrey-Coles	Eitem 7 ar yr Agenda – Cofnodion y Cabinet 19/07/23 - Cofnod 6 – System Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru: Pa Mor Bell, Pa Mor Gyflym?	Ei phartner yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol.
T. Davies	Eitem 6 ar yr Agenda - Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.	Mae un o'r gwrandawiadau a grybwyllir yn yr

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi, a'i chonsort, wedi bod i nifer o ddigwyddiadau ers cyfarfod olaf y Cyngor, gan gynnwys cyfarfod Cymdeithas Betws yn y Garnant, y digwyddiad *Hope* yng Nghlwb Cymdeithasol Dafen ac agoriad yr Hen Farchnad yn Llandeilo. Dywedodd y Cadeirydd y gofynnwyd iddi hefyd fynd i ddathliad 75 mlynedd yr Iechyd Gwladol a gynhelir gan Gymdeithas y Cyfeillion.
- Bu i'r Cynghorydd A. Davies longyfarch timau Clwb Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin yn dilyn eu llwyddiant yn y gystadleuaeth ar lefel genedlaethol yn Swydd Stafford dros y penwythnos.

4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y sefyllfa bresennol ynghylch penderfyniad y Swyddfa Gartref i ddefnyddio Gwesty Parc y Strade yn y Ffwrnes ar gyrion Llanelli i letya ceiswyr lloches. Dywedodd fod y cais am waharddeb dros dro yn yr Uchel Lys yn aflwyddiannus a bod yn rhaid i'r Cyngor ystyried y dyfarniad a'r camau nesaf. Nodwyd bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i roi cymorth ac arweiniad i'r staff oedd wedi colli eu swyddi ac y byddai'n eu cefnogi i chwilio am waith. Roedd y Cyngor wedi gwahodd amryw o gwmnïau i ffair gyflogaeth yr wythnos ddiwethaf.

Cyfeiriwyd at y brotest a phresenoldeb y cyhoedd a'r heddlu wrth fynedfa Gwesty Parc y Strade a'r arestiadau anffodus dros y penwythnos. Pwysleisiodd yr Arweinydd ei fod yn deall pam y mae pobl wedi ymgynnull yno a'r teimladau cryf a'r dicter yn sgil ymddygiad Llywodraeth Geidwadol y DU. Roedd y Cyngor wedi dadlau'n gyson fod ffordd amgen a gwell o ddarparu llety i geiswyr lloches gan ddefnyddio model mwy gwasgaredig a chynllunio grwpiau llai.

Nododd yr Arweinydd ei siom ynghylch y diffyg ymateb gan y Swyddfa Gartref ac nad oedd y Cyngor gam ymlaen na'r diweddariad blaenorol ar 21 Mehefin. Roedd y Swyddfa Gartref wedi addo y byddai'r Cyngor yn cael gwybod am ddemograffeg y rhai sy'n cael llety 24 awr cyn iddynt cyrraedd ond hyd yma nid oedd unrhyw wybodaeth wedi dod i law. Ailbwysleiswyd y byddai'r Cyngor yn gwneud yr hyn a allai i gefnogi'r gymuned leol a'r staff yn y gwesty.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR Y 21 MEHEFIN 2023

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023 gan eu bod yn gywir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R CYNGOR LLAWN

[Sylwer: Roedd y Cynghorydd T. Davies wedi datgan buddiant yn yr eitem hon ac arhosodd yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ynghylch yr eitem hon a'r bleidlais ddilynol].

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mrs Mary Dodd, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, a wahoddwyd i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y cyfnod 2022/23 i'r Cyngor.

Nodwyd mai dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Safonau yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a roddodd ddyletswyddau newydd i arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r côd gan aelodau eu grŵp. Roedd y Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Safonau roi gwybod ynghylch pa mor dda y mae arweinwyr grwpiau wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny.

Diolchodd Mrs Dodd i'r Cyngor am y cyfle i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar ran y Pwyllgor Safonau ac aeth yn ei blaen i roi trosolwg o'r materion y bu'r Pwyllgor yn mynd i'r afael â hwy yn ystod 2022/23. Roedd y rheiny'n cynnwys Cwynion Côd Ymddygiad, Ceisiadau am Ollyngiad a Hyfforddiant Côd Ymddygiad ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned.

Nodwyd bod y pwyllgor wedi cael dau atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'w hymchwilio iddynt ac atgoffwyd yr aelodau na ddylent fod yn hunanfodlon ac y dylent fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan y côd ymddygiad.

Nodwyd hefyd mai dim ond 52 cais am ollyngiadau a ystyriwyd gan y pwyllgor, sef cynnydd sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Anogodd yr aelodau i ystyried yr angen am ollyngiad ac i geisio cyngor pan fo angen.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Dodd am ei chyflwyniad ac am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Safonau.

PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

7. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 19 MEHEFIN, 2023

[Sylwer: Roedd y Cyngorwyr M. Palfreman, H.B. Shepardson, K. Madge, B.A.L. Roberts, P.T. Warlow a S.Godfrey-Coles wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac wedi aros yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ynghylch yr eitem hon a'r bleidlais ddilynol].

Gan gyfeirio at Gofnod 6, yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2023 ynghylch System Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru: Pa Mor Bell, Pa Mor Gyflym?, gofynnwyd i'r Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a allai roi sicrwydd o'i hyder ynghylch y cynllun yn cael ei gyflawni yn Sir Gaerfyrddin, o ystyried y risgiau sylweddol a nodwyd yn yr adroddiad gan

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

gynnwys argaeledd gweithlu ar draws y system, diffyg tystiolaeth gadarn o integreiddio ffurfiol ledled Cymru a'r angen o ran ailfeddwl llywodraethu a rheoli'r system, a hynny'n radical, i sicrhau bod trawsnewidiad o'r math hwn yn gweithio.

Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod heriau'r gweithlu yn cael eu cydnabod a'u bod yn flaenllaw o ran blaenoriaeth barhaus gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda a'r Cyngor Sir. Roedd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi cael yr adroddiad ac wedi'i gymeradwyo. Dywedodd fod y gwaith integreiddio yn Sir Gaerfyrddin wedi dechrau sawl blwyddyn yn ôl, a bod perthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth wedi'i datblygu gyda phartneriaid, ac y byddai'r gwaith yn parhau'n gyflym.

Wrth gyfeirio at Gofnod 9, ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am ddeiseb Harbwr Porth Tywyn i'r Cyngor Llawn, gofynnwyd pam nad oedd unrhyw sôn yn y cofnodion am Burry Port Marina Ltd yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ar 7 Mehefin. Gofynnwyd am eglurhad hefyd ynghylch y sefyllfa bresennol o ran dyfodol Harbwr Porth Tywyn.

Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth ei fod wedi darparu diweddariad cynhwysfawr yn y cyfarfod ac, er bod y cofnodion yn gywir, nid oedd yn gofnod air am air o'r trafodaethau. Dywedodd mai ar gofnod cyhoeddus y cyhoeddwyd bod y cwmni dan sylw wedi cael ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr. Hefyd dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth fod y sefyllfa bresennol yn parhau a bod uwch-swyddogion wedi cwrdd a'u bod yn parhau i gynnal trafodaethau â'r gweinyddwyr yn ystod y broses ffurfiol o roi'r cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr. Oherwydd y broses gyfreithiol, dywedwyd nad oedd modd rhannu manylion penodol ar hyn o bryd ond dywedodd ei fod yn gobeithio cyrraedd man lle roedd dyfodol yr harbwr yn gliriach. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r holl randdeiliaid perthnasol yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf pryd bynnag y bo modd yn ystod y broses hon.

Mewn ymateb i eglurhad ynghylch Cofnod 5.1, Cwestiwn gan Mr Havard Hughes, dywedodd yr Arweinydd fod y prosiect wedi'i ddatblygu dros nifer o flynyddoedd a'i fod wedi bod yn destun nifer o adroddiadau. Dywedodd fod y prosiect yn gyfle enfawr i gynhyrchu refeniw o ran twristiaeth a datblygiad economaidd. Dywedodd fod yr amserlenni a atodwyd i gyllid y prosiect hwn yn heriol a bod cychwyn y broses Gorchymyn Prynu Gorfodol (CPO) yn ddull synhwyrol. Fel arall roedd mwy o risg na fyddai'r cynllun yn cael ei gyflawni'r flwyddyn nesaf.

Gan gyfeirio at Gofnod 9, ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am ddeiseb Harbwr Porth Tywyn i'r Cyngor Llawn, gofynnwyd a fyddai modd cynnal cyfarfod gyda'r gweinyddwyr a phartïon eraill â diddordeb fel y gallai'r gweinyddwyr gael dealltwriaeth o safbwynt lleol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth fod y gweinyddwyr bellach yn rhedeg yr harbwr ac, fel prif randdeiliad, prif nod y Cyngor oedd sicrhau bod yr harbwr yn ddiogel i'w agor a'i weithredu. Er na allai roi sylwadau ar ran y gweinyddwyr, roedd yn gobeithio y byddent yn ystyried holl safbwyntiau'r rhanddeiliaid yn rhan o'r broses.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2023.

8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-

9.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD JOHN JAMES I'R CYNGHORYDD ALED VAUGHAN OWEN AELOD Y CABINET DROS NEWID HINSAWDD, DATGARBONEIDDIO A CHYNALIADWYEDD

“Mae'r modd y mae newid yn yr hinsawdd yn cyflymu, datgoedwigo, llygredd a gweithgareddau dynol eraill wedi gwthio byd natur i'r dibyn, gan fygwth y cydbwysedd bregus sy'n cynnal bywyd ar y Ddaear.

Sut ydych chi'n credu y gall Cyngor Sir Caerfyrddin ymateb orau i'r Argyfwng Natur y mae ef a Llywodraeth Cymru wedi'i ddatgan?”

Ymateb y Cyngorydd Aled Vaughan-Owen - yr Aelod Cabinet Dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd:-

Diolch i'r Cadeirydd a diolch i'r Cyngorydd James am y cwestiwn amserol.

Rwy'n siŵr ein bod i gyd wedi clywed mai'r wythnos ddiwethaf oedd yr wythnos gynhesaf ar y blaned sy'n ein hatgoffa bod angen i ddynoliaeth gynyddu lefel y gweithredu ar yr argyfyngau newid hinsawdd a natur a gwneud hynny ar frys. Os nad ydym yn sicrhau ein bod yn cadw lefelau'r tymheredd o dan reolaeth, bydd yn cael effaith drychinebus ar ein systemau iechyd, systemau bwyd, yr economi, ein cymunedau a hefyd ar natur.

Dyna pam rwy'n falch iawn ein bod ni fel cyngor wedi galw am gydnabod argyfwng natur y byd ar ddiwedd tymor olaf yr etholiad ac mae'n anrhydedd mawr i fod bellach yn ddeiliad y portffolio Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd a chael rhan fach yn y rôl bwysig o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn ymateb i'r heriau hyn. Ond yn wir, ni ellir diwallu'r heriau gydag un deiliad portffolio yn unig. Mae pob un ohonom, fel aelodau lleol, fel aelodau cabinet ac fel corff cyhoeddus, yn gyfrifol am yr heriau sy'n ymwneud â natur.

Mae'n rhaid i ni osod hinsawdd a natur wrth wraidd y broses o lunio polisiâu ac wrth weithredu o ddydd i ddydd. Rydym bellach yn gweld hyn yn cael ei gydnabod yn y Cynllun Corfforaethol a hefyd yn y Strategaeth Drawsnewid. Rydym eisoes wedi creu panel ymgynghorol trawsbleidiol ar yr argyfwng natur a hinsawdd ac mae gennym grŵp o aelodau angerddol sydd ar gael i gynghori, i herio ac i ysbrydoli fel y gallwn wneud y penderfyniadau cywir nawr a hefyd yn y dyfodol.

Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac wedi cael y cyfle i helpu i lunio'r ffordd rydym yn cyflawni nid yn unig yr hyn y mae'n

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

ofynnol yn gyfreithiol inni ei gyflawni o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) ond hefyd yr uchelgais cywir y dylem fod yn anelu ato.

Mae'r Aelodau wedi gallu awgrymu camau pellach, cyflymach a dewrach inni anelu atynt yn y Cynllun Gweithredu nesaf ac edrychaf ymlaen at gyflwyno'r cynllun i'r pwyllgor craffu. Rwy'n gwybod y bydd yn cael ei herio'n briodol i sicrhau ei fod yn cyflawni'r nodau a'r uchelgeisiau sy'n gyffredin inni i gyd.

Ond pa bynnag gamau gwirioneddol y bydd y cyhoedd yn eu gweld, ac yn ystod y gaeaf diwethaf mae Cyngor Sir Caerfyrddin, drwy gyllid Llywodraeth Cymru, wedi gallu darparu 5 safle plannu coed gan gynnwys 3 choetir newydd yn Nhregib, Cydweli a Llandybïe. Mae'r goeden gywir yn y lle cywir am y rheswm cywir yn hanfodol ac yn caniatáu inni gael manteision ehangach o ran natur, adfer, gwella cynefinoedd, mesurau lliniaru hinsawdd ond hefyd o ran buddion iechyd a llesiant hanfodol i gymunedau lleol. Mae lleoli'r rhain ar dir addas yn ein cymunedau a'r cyffiniau yn caniatáu ar gyfer llawer mwy na dim ond y manteision amgylcheddol.

Rydym hefyd yn agos at ddynodi 3 Gwarchodfa Natur Leol newydd. Gan weithio gyda chymunedau lleol, rydym wedi gallu cael rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu i adfer ac i ddiogelu ardal o gynefinoedd a bioamrywiaeth gwerth uchel a leolir ger trefi. Mae hyn yn cynnig nifer o fanteision ychwanegol o ran treftadaeth, hamdden ac addysg ar hyd y ffordd. Mae'r rhain yn ychwanegol at y gwaith cadwraeth pwysig sy'n cael ei wneud yn Llyn Llech Owain, Parc Coetir Mynydd Mawr, ac Allt Nant-y-ci, Gwarchodfa Natur Leol Twyni Pen-bre, a Pharc Gwledig Pen-bre.

Y llynedd cafodd dros 30 o safleoedd eu dynodi ar draws y sir a fyddai'n cael eu rheoli ar gyfer pryfed peillio. Mae pryfed peillio hefyd yn chwarae rôl hollbwysig wrth gefnogi cydbwysedd iechyd ecolegol ein planed. Mae diogelu pryfed peillio'n hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch bwyd, cynnal bioamrywiaeth, hyrwyddo ecosystemau cynaliadwy a llawer mwy.

Eleni rydym yn cynyddu faint o dir rydym yn ei reoli'n wahanol er mwyn deall ymhellach y gwahanol dechnegau a pha system reoli sydd ei hangen. Mae ein timau bioamrywiaeth a chynnal a chadw tiroedd yn llunio cynlluniau ar hyn o bryd fel y gellir cynnig torri porfa amwynderau mewn modd gwahanol fel y gellir defnyddio tir ar gyfer buddion ehangach yn y dyfodol. Byddaf yn trafod y rhain â'm cydweithwyr yn y cabinet ym maes tai, adfywio ac addysg a fydd yn gallu cyflwyno newidiadau yn eu hadrannau fesul cam.

Mae plannu coed yn achosi llawer o ddadlau ac mae plannu coed yn ddireolaeth/yn anreoleiddiedig a gwyrddgalchu arferion sy'n ddwys o ran carbon ar draul cymunedau yng Nghymru yn rhywbeth nad oes ei angen ar neb, ac nid ydym yn cefnogi hyn. Fodd bynnag, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd coed. Eu manteision o ran bioamrywiaeth a'r hinsawdd yw dim ond rhai o'r rolau arwyddocaol sydd gan coed wrth sicrhau ein bodolaeth ar y blaned hon.

Rydym eisoes wedi creu drafft cyntaf y Strategaeth Goed ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin a drafodwyd yn y Pwyllgor Craffu Lle a Chynaliadwyedd. Buom yn

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

trafod yr angen i fod yn sensitif i gymunedau gwledig lleol yn ogystal â chwilio am gyfleoedd i wneud ein hardaloedd trefol llwyd yn fwy gwyrdd. Byddwn bellach yn edrych ar yr adborth, yn dysgu rhagor gan sefydliadau eraill ac yn sicrhau ein bod yn cyd-ddylunio polisi sy'n cefnogi ac yn dod â chymunedau gyda ni, gan sicrhau hefyd ein bod yn cydnabod ac yn deall y wyddoniaeth, sicrhau nad ydym yn anwybyddu'r dystiolaeth gadarn sydd mor amlwg, a datblygu targedau cryf beiddgar sy'n cyd-fynd â'r brys a nodir yn natganiad argyfwng natur y cyngor hwn.

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd John James:

Yn ddiweddarach y mis hwn byddwn yn dathlu wythnos natur Cymru a fydd yn dechrau ar 22 Gorffennaf. Mae hyn yn cynnig cyfle i ni i gyd ganolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud i ddiogelu a gwella natur yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu inni gan natur yn anfesuradwy – aer glân, dŵr a pheillio bwyd a llawer mwy. Y Cynghorydd Owen, sut rydych chi'n gweld tirwedd ac ecosystemau unigryw Sir Gaerfyrddin yn chwarae rhan wrth liniaru ac addasu i newid hinsawdd, o ran y ffordd rydym yn rheoli ardaloedd ucheldirol a photensial morwellt ar arfordir isel?

Ymateb y Cynghorydd Aled Vaughan-Owen - yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd:-

Os ydym yn mynd i liniaru effeithiau gwaethaf Newid Hinsawdd ac addasu ein cymunedau yn ôl faint o newid yn yr hinsawdd sydd eisoes wedi digwydd, yna mae gweithio gyda byd natur yn rhoi'r cyfle gorau inni lwyddo.

Mae tirweddau ac ecosystemau amrywiol Sir Gaerfyrddin yn cynnig cyfle anhygoel inni gyrraedd ein dyheadau datgarboneiddio cyffredin - mae ein mawnogydd ucheldirol yn storfa garbon hynod effeithlon, gan gadw mwy o garbon yn y pridd na chapasiti cyfatebol coedwig o goed. Mae'r 4% o Gymru sy'n cael ei gorchuddio gan fawn yn storio hyd at 30% o garbon pridd Cymru. Ond mae degawdau o gamreoli a pholisïau annoeth yn golygu bod mawndiroedd sydd wedi'u difrodi yn rhyddhau carbon i'r atmosffer, gan gyfrannu at gyflymu newid hinsawdd.

O ystyried bod 70% o ddŵr yfed y DU yn dod o ardaloedd ucheldirol sy'n cael eu meddiannu gan fawndiroedd, mae'r angen i'w hadfer yn glir, yn enwedig ar ôl 2 fis lle mae Cymru wedi cael 44% o'i glawiad disgwylidig yn unig. Yn fwy na hynny, mae mawnogydd gwlyb yn cynnwys hyd at 90% o ddŵr, sy'n golygu eu bod yn gweithredu fel rhwystr naturiol rhag i danau gwyllt ledaenu ac maent hefyd yn lleihau'r risg o lifogydd ymhellach i lawr yr afon.

Bydd rheoli tir yn wahanol yn hanfodol er mwyn lleihau'r llygryddion sy'n mynd i mewn i afonydd gan allyrru rhagor o nwyon cynhesu hinsawdd, a lleihau lifogydd a senarios tywydd eithafol eraill ac addasu iddynt. Bydd angen gwneud hyn yn dringar gan weithio'n briodol gyda'r holl randdeiliaid. Ond yn anffodus, nid yw ein meddylfryd a'n gweithredoedd yn newid i gadw i fyny â chyflymder newid hinsawdd. Bydd mwy o ardaloedd a mwy o bobl yn dod yn agored i dywydd eithafol a thrychinebau. Mae newid yn digwydd y tu hwnt i'ch man cyfforddus.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn cynnig cyfleoedd yn ein trefi. Datgarboneiddio ac iechyd yw'r ddau reswm pam y dylem newid y ffordd rydym yn teithio. Mae seilwaith gwyrdd yn cynnig potensial enfawr i leihau nwyon niweidiol a gwella ansawdd aer lleol. Mae'n darparu cynefin i beillwyr, cyfle i ddraenio trefol cynaliadwy er mwyn arafu llifogydd o ran dŵr wyneb a hefyd mae gwneud amgylcheddau adeiledig yn fwy gwyrdd yn gallu lleihau gwres ac yn cynnig cysgod mewn tywydd eithafol.

Mewn 100 mlynedd, bydd tua 390,000 o eiddo mewn perygl o lifogydd. Bydd cynnydd o 47% o ran y rhai sy'n agored i lifogydd llanw. Dyma sy'n digwydd os nad oes dim yn newid. Dyma lle mae diogelu agendâu ac arferion sydd wedi dyddio yn ein baglu. Dyma lle mae "Dyma sut rydym bob amser wedi'i wneud" yn ein baglu. Bydd croesawu atebion sy'n seiliedig ar natur wrth newid ein harferion o lygru yn rhoi cyfleoedd inni roi cyfle teg i'r genhedlaeth nesaf.

Un o'r datblygiadau cyffrous fel y dywedoch chi yw morwellt. Mae morwellt yn ecosystem mor bwysig nad ydym byth braidd yn ei gwerthfawrogi. Mae'n un o'r dalfeydd carbon gorau ar y blaned; mae'n helpu i lanhau llygryddion yn y dŵr, yn cynnig cynefinoedd anhygoel i rywogaethau, a hefyd yn helpu i leihau erydu arfordirol a allai arwain at leihau llifogydd llanw. Dylai Sir Gaerfyrddin fod yn falch fod gennym feithrinfa forwellt ym Mhentywyn, gyda'r byd academiaidd yn cefnogi'r gwaith ymchwil y gellir gobeithio ei gyflwyno ar raddfa yn ôl yr angen.

Diolch yn fawr iawn am eich cwestiynau craff, Gynghorydd James. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi nawr ac yn eich rôl newydd yng Nghabinet yr Wrthblaid newydd, gan barhau i gael fy ysbrydoli gan y Panel Cynghori a'm herio a'm cefnogi gan aelodau'r Pwyllgor Craffu.

Y bygythiad mwyaf i'n planed yw'r gred y bydd rhywun arall yn ei hachub. O ran y materion hyn, gadewch inni barhau i anwybyddu unrhyw ddadlau gwleidyddol, oherwydd gweithredu ar y cyd fydd yn creu'r pŵer i wella ac i ddiogelu ein planed ac, wrth wneud hynny, sicrhau bod y ddynoliaeth yn goroesi.

10. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda 10.1 – 10.8 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

CABINET

DYDD LLUN, 3 GORFFENNAF 2023

PRESENNOL Cyngorydd D. Price (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

C.A. Davies

L.D. Evans

G. Davies

P.M. Hughes

G.H. John

A. Lenny

E.G. Thomas

J. Tremlett

A. Vaughan Owen

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters – Prif Weithredwr

J. Morgan – Cyfarwyddwr Gwasanethau Cymdeithasol

C. Moore – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

G. Morgans – Cyfarwyddwr Addysg a Phlant

J. Jones – Pennaeth Adfywio

L. Rees-Jones – Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

L. Jenkins – Swyddog Cynnal y Cabinet

C. Higginson - Rheolwr Cyfryngau

A. Eynon - Cyfieithydd Ar Y Pryd

M.S. Davies – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)

M. Evans Thomas – Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cymryd nodiadau)

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.26 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR 19EG MEHEFIN 2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dyweddod y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. POLISI DIGOLLEDU AR GYFER DEILIAID CONTRACTAU (TENANTIAID).

Bu'r Cabinet yn ystyried y Polisi Digolledu ar gyfer Deiliaid Contractau (Tenantiaid) a oedd yn amlinellu dull yr Awdurdod o ddelio ag achosion pryd y gallai fod yn briodol digolledu tenant sydd wedi dioddef colled neu anghyfleustra oherwydd methiant yn y gwasanaeth. Bydd y polisi yn arwain swyddogion wrth ddelio â thenantiaid y cyngor gan sicrhau dull cyson.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Polisi Digolledu ar gyfer Deiliaid Contractau (Tenantiaid).

7. POLISI ADENNILL COSTAU AM WAITH ATGYWEIRIO AR GYFER DEILIAID CONTRACTAU (TENANTIAID).

Bu'r Cabinet yn ystyried y Polisi Adennill Costau am Waith Atgyweirio ar gyfer Deiliaid Contractau (Tenantiaid) a oedd yn nodi'r meini prawf pryd byddid yn codi tâl ar denant (deiliad contract) am atgyweiriadau y maent hwy'n gyfrifol amdanynt o dan y cytundeb tenantiaeth (Contract).

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Polisi Adennill Costau am Waith Atgyweirio ar gyfer Deiliaid Contractau (Tenantiaid).

8. ADRODDIAD GRWP GORCHWYL A GORFFEN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH (DU, ASIAIDD A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG).

Yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf 2020 (gweler cofnod 8), ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r ddau Rybudd o Gynnig ar hiliaeth yn Sir Gaerfyrddin ar 12 Chwefror 2020 (7.1) ac 8 Gorffennaf 2020 (7.1), roedd y Cabinet o'r farn y dylid mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan bob Cynnig ar y cyd â'i gilydd a chymeradwyodd sefydlu Panel Ymgynghorol Gorchwyl a Gorffen a oedd yn wleidyddol gytbwys i wrando ar lais cymunedau Du, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig yn Sir Gaerfyrddin.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn nodi canfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gasglwyd dros gyfnod o flwyddyn rhwng 2020 a 2021. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa a'r wybodaeth a oedd ar gael i'r Grŵp bryd hynny. Cytunodd y Grŵp ar yr argymhellion yn yr adroddiad yn ei gyfarfod olaf ym mis Gorffennaf 2021.

Ers mis Mai 2020 mae cyflymder y newid o ran anghydraddoldeb hiliol wedi cynyddu'n sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith ar lefel genedlaethol ac ym mis Mehefin 2022 cyhoeddodd ei Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wrth-hiliol a sut y byddai'n mynd ati i gyflawni hyn drwy Gynllun

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Hefyd, ym mis Hydref 2021, Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i wneud addysgu hanes a phrofiadau pobl Dduon, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn orfodol yng nghwricwlwm ysgolion. Wrth ystyried yr adroddiad roedd yn amlwg bod mentrau cenedlaethol wedi mynd y tu hwnt i uchelgais y Grŵp, ond mae rhai argymhellion yn benodol i Gyngor Sir Caerfyrddin.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- 8.1 bod argymhellion 1-17 ac argymhelliad 20 y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, fel y nodir yn yr adroddiad yn cael ei derbyn;**
- 8.2 gofyn i swyddogion adolygu argymhellion 18 a 19, o ystyried y goblygiadau cost posibl.**

9. CAIS I'R GRONFA DDATBLYGU.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ddiweddaraf y Gronfa Ddatblygu ac yn gofyn am gymeradwyo cais diweddar i roi swm o £150,000 i ariannu Cwrs Golff Bach newydd wedi'i seilio ar thema ar Safle Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- 9.1 cymeradwyo rhoi swm o £150,000 ar gyfer Cwrs Golff Bach newydd wedi'i seilio ar thema ar Safle Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn, gan greu mwy o incwm;**
- 9.2 bod yr ad-daliad am y cynllun uchod yn para dros gyfnod o bedair blynedd;**
- 9.3 bod y taliadau'n dechrau yn 2024/25**

10. CYNLLUN CREU LLEOEDD PORTH TYWYN.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi manylion Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Porth Tywyn a luniwyd i ategu Cynlluniau Twf y Deg Tref a'r cynlluniau adfer Covid-19 ar gyfer prif drefi Sir Gaerfyrddin. Byddai cyhoeddi'r Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Porth Tywyn yn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r prif drefi a'r trefi eilaidd eraill ar draws y sir.

Dylid nodi bod y cynllun yn adlewyrchu'r sefyllfa ym mis Mai 2022. Mae'r cynllun yn ddigon hyblyg i adlewyrchu anghenion a gofynion newidiol posibl y dref a gellir ei ddiwygio o bryd i'w gilydd gan dîm y dref. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu gyda rhanddeiliaid allweddol yn yr ardal i nodi cyfleoedd a oedd yn cysoni'r cynigion adfer ar gyfer canol y dref â dyheadau adfywio yr harbwr gan sicrhau bod Porth Tywyn yn y sefyllfa orau i fanteisio i'r eithaf ar effaith gwaith adfywio arfaethedig yn yr ardal leol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Wrth lunio'r Cynllun Creu Lleoedd, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y gymuned ac roedd eu cyfraniad wedi helpu i nodi 15 o Gyfleoedd Prosiect Creu Lleoedd yn yr ardal a fyddai'n helpu i wireddu'r dyheadau ar gyfer Porth Tywyn, a nodwyd y rhain yn yr adroddiad.

Petai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynllun, byddai swyddogion yn cynnal cyfarfod i rhanddeiliaid allweddol ym Mhorth Tywyn i gyflwyno'r cynllun terfynol ac yn ceisio ffurfio grŵp i symud y cynllun ymlaen, gan fanteisio, lle bynnag y bo'n bosibl, ar ffrydiau cyllido perthnasol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Creu Lleoedd Porth Tywyn.

11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYD YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

CABINET**DYDD LLUN 17EG GORFFENNAF 2023**

PRESENNOL: Y Cynghorydd L.D. Evans (Is-gadeirydd yn Cadeirio) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

C.A. Davies

G. Davies

P.M. Hughes

G.H. John

A. Lenny

E.G. Thomas

J. Tremlett

A. Vaughan-Owen

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

Y Cynghorydd D.M. Cundy

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters - Prif Weithredwr

G. Morgans - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant

J. Jones - Pennaeth Adfywio, Polisi & Digidol

L. Rees-Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

R. Hemingway - Pennaeth Gwasanaethau Ariannol

C. Higginson - Rheolwr Cyfryngau

N. Thomas - Rheolwr Gwasanaeth y Blynnyddoedd Cynnar ac Ataliaeth

L. Jenkins - Swyddog Cymorth y Cabinet

C. Llwyd - Cyfieithydd Ar Y Pryd

J. Owen - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

S. Hendy - Swyddog Cymorth i'r Aelodau

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

J. Coles - Pennaeth Plant a Theuluoedd

J. Lewis - Rheolwr Partneriaeth Rhanbarthol

M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Note Taker]

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin ac o bell : 10.00 yb - 10.35 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Price, y Cadeirydd, a oedd wrthi'n ymwneud â mater arall yn gysylltiedig â gwaith y Cyngor.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Swyddog	Rhif y Cofnod	Math o Fuddiant
J. Jones - Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol	10 - Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Ceisiadau Strategol Annibynnol	Mae wedi'i enwi fel ail ymgeisydd ar un o'r prosiectau.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR Y 3 GORFFENNAF 2023

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. TRAWSNEWID GWASANAETHAU MAMOLAETH A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR: STRATEGAETH Y BLYNYDDOEDD CYNNAR AR GYFER GORLLEWIN CYMRU

Bu'r Cabinet yn ystyried Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro mewn ymateb i Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar yr angen am wasanaeth blynyddoedd cynnar cydgysylltiedig ac ymatebol i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Fel rhan o'r rhaglen drawsnewid, mae angen profi a threialu ffyrdd arloesol o weithio, ac o ganlyniad mae swyddogion yn Sir Gaerfyrddin wedi gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddatblygu Tîm Integredig Blynyddoedd Cynnar peilot yng Nghwm Gwendraeth. Tîm amlddisgyblaethol o weithwyr iechyd proffesiynol yw hwn (Bydwagedd, Ymwelwyr Iechyd a Therapyddion Lleferydd ac Iaith), gweithwyr proffesiynol yr Awdurdod Lleol (Swyddogion Cymorth i Deuluoedd a Chysylltydd Cymunedol).

Ar lefel ranbarthol, sefydlwyd Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar yn 2019 ac mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer y rhanbarth, gan nodi gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau cytunedig ar gyfer yr holl wasanaethau sy'n gweithio yn y sector Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yr Awdurdod Lleol a sefydliadau'r trydydd sector.

Erbyn mis Gorffennaf 2022 roedd y broses o ddatblygu'r strategaeth bron wedi'i chwblhau a chymerodd trawstoriad o weithwyr proffesiynol a theuluoedd o bob rhan o'r rhanbarth ran yn y broses ymgynghori drwy grwpiau ffocws ac arolwg ar-lein. Mae'r strategaeth hon ychydig yn wahanol gan ei bod ar y we, yn rhyngweithiol ac yn gryno gan ganiatáu i weithwyr proffesiynol sy'n brin o amser gyrchu'r strategaeth yn ôl yr angen. Yn dilyn cymeradwyaeth lawn y bwriad oedd lansio'r strategaeth ar draws y rhanbarth.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.

7. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

8. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

9. ROWND 2 - CRONFA CYMUNEDAU CYNALIADWY

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 8 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd gallai datgelu'r wybodaeth danseilio sefyllfa'r sefydliadau dan sylw mewn perthynas â sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn yr un maes gweithgaredd.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o geisiadau a gyflwynwyd o dan y Gronfa Cymunedau Cynaliadwy (Rownd 2) sy'n cael ei hariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

9.1 Dyfarnu cyllid i'r prosiectau a nodir fel yr argymhellwyd gan y Panel Cyllido ac fel y nodir yn yr adroddiad;

9.2 Cymeradwyo trosglwyddo £250,000 ychwanegol o elfennau eraill heb eu dyrannu Rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin, oherwydd y nifer uchel o geisiadau o safon a gyflwynwyd.

10. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU - CEISIADAU STRATEGOL

[NODER: Gan iddo ddatgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd Mr J. Jones, Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol, y cyfarfod cyn i'r mater gael ei ystyried a chyn y gwnaed penderfyniad yn ei gylch.]

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 8 uchod, beidio â chyhoeddi

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn cael effaith andwyol ar yr ymgeiswyr yn y farchnad lle maent yn gweithredu drwy ddatgelu syniadau busnes arloesol cystadleuwyr.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r ceisiadau a gyflwynwyd o dan yr alwad agored am brosiectau strategol annibynnol o fewn blaenoriaethau Cymunedau a Lle a Chefnogi Busnesau Lleol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

10.1 Dyfarnu cyllid i'r prosiectau a nodir yn Atodiad 1 ac Atodiad 2, fel y nodir yn yr adroddiad;

10.2 Cymeradwyo argymhellion y Bartneriaeth Adfywio mewn perthynas ag ailddosbarthu cyllid a allai ddod yn ôl i'r gyllideb o £5.85m ar gyfer yr alwad hon.

11. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU - CEISIADAU STRATEGOL - POBL A SGILIAU A LLUOSI

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 8 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn cael effaith andwyol ar yr ymgeiswyr yn y farchnad lle maent yn gweithredu drwy ddatgelu syniadau busnes arloesol cystadleuwyr.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r ceisiadau Strategol Annibynnol a gyflwynwyd o dan yr alwad agored ar gyfer y flaenoriaeth Pobl a Sgiliau ac amcanion Lluosi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ddyfarnu cyllid i'r prosiectau a nodir yn Atodiad 1 ac Atodiad 2, fel yr argymhellwyd gan y Bartneriaeth Adfywio, fel y nodir yn yr adroddiad.

12. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU - Y GRONFA SGILIAU A'R GRONFA CYFLOGADWYEDDD

Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 8 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd gallai datgelu'r wybodaeth danseilio sefyllfa'r sefydliadau dan sylw mewn perthynas â sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn yr un maes gweithgaredd.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o geisiadau a gyflwynwyd o dan y Gronfa Sgiliau a'r Gronfa Cyflogadwyedd, sy'n cael eu hariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ddyfarnu cyllid i'r prosiectau a nodir yn Nhabl 2 a Thabl 3, fel yr argymhellwyd gan y Panel Cyllido, fel y nodir yn yr adroddiad.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol